# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RD(3)-05-07)

**Dyddiad: 18 Hydref 2007**
**Amser: 8:45 - 9:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Trafod y papur cwmpasu a'r cylch gorchwyl ar gyfer ail ymchwiliad craffu'r pwyllgor Papur: RC(3)-05-07 (p.1)

2.1 Gofynnodd y cadeirydd am sylwadau ar y papur cwmpasu diwygiedig ar gyfer ail ymchwiliad craffu'r pwyllgor. Cytunodd y pwyllgor y dylai'r ymchwiliad ddechrau gyda chyflwyniadau gan yr Arsyllfa Wledig a Bwrdd y Canolbarth a Chefn Gwlad (Central Wales Plus).

2.2 Cytunodd y pwyllgor hefyd y dylai'r cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i'w chymell i wneud datganiad yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 23 Hydref ynglŷn â'r datblygiadau o safbwynt y Tafod Glas a Chlwy'r Traed a'r Genau.